# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod arbennig o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2023 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Gill German, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Delyth Jones, Diane King, Julie Matthews, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott (Is-Gadeirydd), Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW); Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol (LD); Partner Busnes Adnoddau Dynol Arweiniol (AM), a/ac Uwch-weinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Ellie Chard, Kelly, Gwyneth Ellis, Carol Holliday, David Williams ac Elfed Williams.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 3 PENODI PENNAETH CYLLID AC ARCHWILIO (ADRAN 151)

Bu i Arweinydd y Cyngor a Phennaeth Dros Dro AD adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd ar gyfer y swydd a rhoddwyd manylion ynglŷn â’r Panel Penodiadau Arbennig a gweithgareddau asesu a ddefnyddiwyd i werthuso ymgeiswyr.

Roedd y Panel Penodiadau Arbennig wedi nodi un ymgeisydd a allai fod yn addas i'w benodi ac a oedd wedi'i wahodd i fynychu cyfarfod y Cyngor.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gwestiynau gan aelodau. Ar ôl i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, bu i'r aelodau drafod y cyflwyniad ac ymatebion i gwestiynau.

***PENDERFYNWYD*** *Penodi Elizabeth Thomas i swydd Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Adran 151).*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm.